# BWLETIN Y FARCHNAD HCC

GORFFENNAF 2017

**Mae'r data diweddaraf gan Kantar Worldpanel yn dangos gostyngiad yng nghyfaint a gwerth y cig oen ffres a werthwyd yn ystod y 12 wythnos a ddaeth i ben 21 Mai mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Gwerthwyd llai o gig eidion a phorc ffres yn ogystal yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yng ngwerth y cigoedd hyn yn ystod y cyfnod dan sylw am fod eu pris cyfartalog ychydig yn uwch nag oedd yn 2016. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y canlyniadau yn fanylach.**

## Cig Oen

Roedd gwerth y cig oen ffres a werthwyd yn ystod y 12 wythnos dan sylw yn £148.8 miliwn, sef dros £10 miliwn yn llai nag yn yr wythnosau cyfatebol yn 2016. Arwyddocâd hyn yw bod y cyfnod yn cynnwys y Pasg, sy'n ŵyl bwysig pan fo gwerthiant cig oen fel arfer yn cynyddu'n sydyn. Mae'r data gan Kantar Worldpanel yn dangos na fu cymaint o gynnydd yn ystod cyfnod y Pasg eleni ag a gafwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Yn gyfan gwbl, gwerthwyd 17,620 tunnell fetrig o gig oen, sef bron 14% (neu 2,800 tunnell fetrig) yn llai nag yn 2016.

Roedd pris cyfartalog y cynnyrch yn ystod y 12 wythnos yn £8.44/kg, sef 65c yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2016. Mae hyn yn dangos na chafodd yr ymgyrchoedd marchnata cyn y Pasg gymaint o effaith ar y farchnad yn gyffredinol eleni; mae rhai marchnatwyr yn ceisio bod yn fwy cystadleuol drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag ar adegau penodol. Mae'n amlwg fod y cynnydd yn y pris cyfartalog eleni wedi dylanwadau ar y farchnad oherwydd mae'r ffigurau'n dangos fod yna'n agos i 9% yn llai o brynwyr. Mae'r ffactorau eraill a gyfrannodd at y gostyngiad yng ngwerthiant cig oen yn cynnwys cyfnod cynhesach nag arfer yn ystod gwyliau'r Pasg, a fyddai wedi peri i rai cwsmeriaid beidio â choginio'r prydau rhost traddodiadol a dewis prydau cyflym yn eu lle.


O gyfanswm y gostyngiad yn y cyfaint a werthwyd yn ystod y cyfnod dan sylw eleni, roedd bron 80% ohono'n deillio o ostyngiad yng ngwerthiant coesau i'w rhostio. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y toriadau hyn yn dal i gynrychioli dros hanner y cig oen a werthwyd yn ystod y 12 wythnos dan sylw – ac yn uwch eto yn y cyfnod cyn y Pasg. Golwython a stêcs cig oen oedd yn gyfrifol am ychydig dros bumed rhan o'r farchnad – cyfanswm o 3,610 tunnell fetrig, sef 380 tunnell fetrig yn llai na'r llynedd. Rhywbeth yn debyg oedd hanes ysgwyddau i'w rhostio - cyfanswm o 1,600 tunnell fetrig, sef gostyngiad o 280 tunnell fetrig. Mewn gwirionedd, yr unig fath o gig oen a werthodd yn well yn ystod y cyfnod dan sylw oedd briwgig; cafwyd cynnydd o dros un y cant i wyth y cant yn ei gyfran o'r farchnad gig oen ffres.

## Cig Eidion

Roedd cyfaint y cig eidion ffres a werthwyd yn y siopau ym Mhrydain yn y 12 wythnos yn diweddu 21 Mai 2017 yn 62,390 tunnell fetrig, sef 240 tunnell fetrig (neu 0.4%) yn llai nag yn yr wythnosau cyfatebol yn 2016. Fodd bynnag, gwariwyd £490.1 miliwn, sef cynnydd o 1.5%, am fod y cynnydd ym mhrisiau pob math o gig eidion yn fwy na digon i wrthbwyso'r gostyngiad bychan yn y cyfaint a werthwyd. Cafwyd cynnydd o 15c (neu 1.9%) i £7.86/kg yn y pris cyfartalog.


Yn debyg i gig oen, y toriad a ddioddefodd waethaf mewn cymhariaeth â gwerthiant y llynedd oedd cig eidion i'w rostio.

*Gwerthu Cig Oen Ffres Manwerth ym Mhrydain Fawr*




Roedd y cyfaint ohono a werthwyd yn 11,795 tunnell fetrig, sef dros 4% yn llai, a dyna oedd bron i bumed rhan o'r holl gig eidion a werthwyd yn ystod y 12 wythnos. Mae'r ffigurau'n awgrymu efallai bod defnyddwyr yn cefnu ar y cig rhost traddodiadol ac yn troi at brydau cyflymach; gwerthwyd bron 3% yn fwy o gig eidion i'w ffrio/grilio – a dyna oedd 18% o'r holl gig eidion ffres a werthwyd yn ystod y cyfnod.

*Toriadau Cig Eidion Ffres Manwerth a werthir yn DU yn ôl cyfaint, 12w/d 21 Mai 17*




Er bod newidiadau o fewn y categori yn cael eu dylanwadu gan y gwahanol doriadau, mae briwgig yn dal i fod yn allweddol o ran cyfaint y gwerthiant yn y sector cig eidion. Yn ystod y 12 wythnos dan sylw, gwerthwyd 31,670 tunnell fetrig o friwgig eidion, sef dros hanner yr holl gig eidion a werthwyd. Roedd hyn yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd – ond dim ond ychydig – ac mae hyn yn dangos sut mae briwgig wedi dod yn rhan annatod o ddiet defnyddwyr ym Mhrydain.

## Porc


Yn debyg i gig eidion, prynwyd ychydig yn llai o borc ffres ym Mhrydain yn ystod y 12 wythnos; fodd bynnag gwariwyd mwy am fod y pris cyfartalog wedi cynyddu 9c i £4.52/kg). Gwariwyd £166.6 miliwn ar borc ffres, sef £3.1 miliwn yn fwy nag yn y 12 wythnos cyfatebol y llynedd. Roedd cyfaint y porc ffres a brynwyd yn 36,830 tunnell fetrig, sef llai na 100 tunnell fetrig yn is nag yn 2016.

Golwython/stêcs porc ffres oedd â'r cyfran uchaf (38%) yn ystod y 12 wythnos, a phob un o'r prif doriadau porc eraill â rhwng 8 a 13% o'r gwerthiant porc.

# PRISIAU'R FARCHNAD

## GWARTHEG

Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





Yn ddiweddar, cafwyd y gwelliant a ddisgwylir yr adeg hon o'r flwyddyn ym mhrisiau gwartheg dethol yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr wrth i broseswyr geisio cael hyd i ddigon o anifeiliaid yn y cyfnod cyn yr haf ond yn yr wythnos ddiwethaf mae'r prisiau wedi cwympo ychydig. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 1 Gorffennaf roedd pris cyfartalog y gwartheg dethol yn 193.9c/kg, sef bron 3c yn is na'r wythnos flaenorol ond bron 2c yn uwch nag yn wythnos gyntaf Mehefin. Y rheswm pwysicaf am hyn oedd cwymp o 5c/kg ym mhrisiau cyfartalog teirw ifainc am fod y niferoedd a werthwyd drwy'r marchnadoedd wedi cynyddu bron 40% i 1,323. Y pris cyfartalog am deirw ifainc yn ystod yr wythnos ddiweddaraf oedd 184.5c/kg. Cafwyd gostyngiad hefyd – ond i raddau llai – ym mhrisiau bustych a heffrod. Cafwyd gostyngiad o 1.9c i 193.1c/kg ym mhris bustych a gostyngiad o 2.2c i 203.2c/kg ym mhris cyfartalog heffrod.

Cafwyd cynnydd cyson ym masnach gwartheg dethol pwysau marw yn ystod y mis diwethaf. Yn yr wythnos yn diweddu 24 Mehefin cafwyd cynnydd o 3.3c i gyfartaledd o 359.2c/kg ym mhris bustych yng Nghymru a Lloegr, sef y pris cyfartalog uchaf ar gyfer bustych oddi ar Chwefror 2015, a 42c yn uwch nag oedd y llynedd. Hefyd, cafwyd cynnydd o 2.5c o'r naill wythnos i'r llall yng Nghymru a Lloegr yn y prisiau pwysau marw am heffrod, a oedd yn 363.1c/kg, ar gyfartaledd. Yn arwyddocaol, cafwyd gostyngiad o fwy na 10% yn nifer yr heffrod a bustych yn y lladd-dai sy'n cofnodi prisiau. Gan ddilyn yr un patrwm, cafwyd cynnydd hefyd ym mhrisiau teirw ifainc – cynnydd o 4.4c i gyfartaledd o 349.2c/kg.

Roedd prisiau buchod difa ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr yn 120.9c/kg ar gyfer yr wythnos yn diweddu 01 Gorffennaf, sef 17c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y flwyddyn flaenorol. Roedd prisiau gwartheg difa pwysau marw yng Nghymru a Lloegr yn yr wythnos yn diweddu 24 Mehefin yn 252.6c/kg, sef 3.2c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol.

## DEFAID

Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





Cafwyd masnach ryfeddol o dda yn y sector ŵyn pwysau byw yn ystod y rhan fwyaf o fis Mehefin; fodd bynnag, yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r prisiau wedi gostwng ychydig wrth i nifer gynyddol o ŵyn ddod ar y farchnad. Yn yr wythnos yn diweddu 01 Gorffennaf roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn 207.5c/kg, sef 15c yn llai na'r cyfartaledd yr wythnos flaenorol. Mae'r pris diweddaraf oddeutu 35c yn is nag oedd y pris cyfartalog bythefnos yn ôl. Er gwaethaf y gostyngiad diweddaraf, mae'r pris yn 19c yn uwch na'r pris cyfartalog yn yr wythnos gyfatebol y llynedd.

Cafwyd gwelliant yn y fasnach ŵyn pwysau marw yn nechrau Mehefin, ac mae'r pris diweddaraf dipyn yn uwch nag oedd yn ystod yr wythnos gyfatebol y llynedd. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 24 Mehefin, roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 487.4c/kg, sef gostyngiad o 22c ers yr wythnos flaenorol. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y fasnach pwysau marw wedi dilyn patrwm y prisiau pwysau byw ac o'r herwydd disgwylir y bydd y pris cyfartalog wedi gostwng yn ystod yr wythnos yn diweddu 01 Gorffennaf. Fel y mae'r prisiau ar hyn o bryd, maen nhw 75c yn uwch na'r pris pwysau marw yn ystod yr wythnos gyfatebol yn 2016, a oedd cyn refferendwm yr UE a phan oedd cryfder y bunt yn creu rhai problemau i allforwyr y DU.

Cafwyd gwelliant yn y fasnach mamogiaid difa ym mis Mehefin wrth i'r galw gynyddu yn ystod gŵyl grefyddol Ramadan, a ddaeth i ben ar 24 Mehefin. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 01 Gorffennaf, roedd y pris yn £50.50 yr anifail, sef £10.50 yn is na'r wythnos flaenorol pan oedd y galw am famogiaid yn uwch.

## MOCH

Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




Mae prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) wedi dal i wella am fis arall, gyda chynnydd parhaus o'r naill wythnos i'r llall yn ystod Mehefin. Yn debyg i'r patrwm a welwyd yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn eleni, daeth y cynnydd wrth i broseswyr geisio sicrhau cyflenwad ar adeg pan oedd llai o foch yn cael eu lladd. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 17 Mehefin, roedd y pris cyfartalog yn 165.6c/kg, sef bron hanner ceiniog yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn golygu fod prisiau yn 4c yn uwch na'r pris cyfartalog ddechrau Mai a bron 41.5c yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Yn ystod yr wythnos yn diweddu 24 Mehefin roedd pris y moch safonol (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 162.3c/kg, sef cynnydd o 0.4c o'r naill wythnos i'r llall. Fel y gellid disgwyl, mae pris moch safonol wedi dilyn patrwm prisiau'r holl foch ac o'r herwydd mae'r pris cyfartalog ar hyn o bryd, sef 122.2c/kg, yn sylweddol uwch na'r pris yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Ni welwyd prisiau tebyg i'r rhai presennol ers tair blynedd pan fabwysiadwyd y dulliau prisio newydd. Amcangyfrifir bod carcasau'n dal i fynd yn ysgafnach, ac ar ddiwedd yr wythnos roedd eu pwysau cyfartalog yn 82.5kg.

Yn ystod yr wythnos yn diweddu 24 Mehefin roedd pris cyfartalog perchyll 30kg yn £60.25, sef dros 60c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Dyma'r pris uchaf am berchyll o'r fath ers dros bum mlynedd. Yn ystod yr un wythnos roedd pris cyfartalog perchyll 7kg yn £44.37, sef 41c yn uwch nag oedd yn yr wythnos flaenorol. Eto, roedd hyn yn uwch nag a fu ers amser maith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch a Hybu Cig Cymru ar 01970 625050 neu e-bostiwch info@hccmpw.org.uk